### Gweddi ar Ddydd Mawrth yr Wythnos Sanctaidd

Caniatâ, O Dduw, i un o'th blant golli dagrau nos a dydd. Na foed i ni byth golli'r ddawn i wylo, gan mai dy ddawn Di ydyw. Wylo a wnawn dros y byd am ei fod yn methu gweld dy ffordd, wylo am arweinwyr sydd yn barotach i ddinistrio nag i ddysgu'r werin i ofalu am y tir a'r gymuned sydd mor fregus. Gwelwn dy bobl mewn aml wlad yn wylofain am nad yw'r arweinwyr yn malio dim amdanynt. Gadawant i dy blant lewygu a newynu tra maent hwy'n pesgi ac yn gwledda yn ddyddiol.

Gwelwn, O Arglwydd, yn ein cartrefi trwy'r teledu, gyrff y rhai a laddwyd mewn rhyfeloedd ym mhob rhan o'r byd. Mewn gwledydd yng nghyfandir Affrig gwelwn lwgrwobrwyo ar raddfa eang a phlant bach o dan bum mlwydd oed yn newynu o ddiffyg cynhaliaeth, ysbytai heb foddion na chyffuriau i wella'r cleifion sy'n griddfan ddydd a nos. Diolchwn am fudiadau dyngarol a Christnogol, ac o grefyddau eraill, sy'n dilyn esiampl Iesu 'o gerdded oddi amgylch gan gyflawni daioni'.

**Dywed y proffwyd:**
O Arglwydd a wyt ti wedi anghofio Jwda?
A yw dy galon yn casáu Seion?
Pam dy fod wedi ein llorio heb obaith nac iachâd?
Yr ydym yn deisyf am heddwch ond ni ddaeth tangnefedd i'n dyddiau. Yr ydym yn chwilio am iachâd, ond yr hyn a gawn yw erledigaeth a diffyg parch. Arglwydd, cydnabyddwn ein drygioni a thwyll ein hynafiaid. Yr ydym wedi pechu yn feichus yn dy erbyn. Er mwyn dy enw, a'th anrhydedd, paid â'n gadael na'n gwrthod na dianrhydeddu dy Deyrnas odidog; cofia ni a phaid â thorri'r cyfamod gyda ni.

Rhown foliant i'n Tad, a gofynnwn i'r Mab ein dwysbigo â'i gyfiawnder, ac i'r Ysbryd ein cynnal heb i ni anobeithio. Amen.